

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING:

11.09.20

Da o beth yw dychwelyd i ryw fath o normalrwydd trwy gyflwyno Cylchlythyr Wythnosol cyntaf y flwyddyn addysgol newydd i'ch sylw. Mae'n bleser gen i wneud hynny, a'i brif bwrpas fydd i rannu unrhyw wybodaeth a manylion pellach am ein gweithdrefnau newydd efo chi. Cofiwch gysylltu os yr hoffech unrhyw wybodaeth pellach unrhyw bryd.

It's good to return to some sort of normality by presenting the first Weekly Newsletter of the year for your attention. It gives me great pleasure to do so, and its main aim will be to share any information and further details regarding our new procedures with you. Remember to contact school if you require any further information at any time.

CROESO - WELCOME

Mor braf fu cael croesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon. Roedd pawb wrth eu bodd o weld ei gilydd eto. Bu'n wythnos hyfryd i bob un ohonom. Rhaid eu canmol i gyd am fod yn blant mor ddoeth a gofalus gan wneud pob ymdrech i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Gofynnwn yn garedig i chi barhau i'w hatgoffa o hynny, ac o bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd trwy gydol y dydd. Diolch i chithau am eich cydweithrediad a'ch dealltwriaeth wrth i ni orfod addasu ein gweithdrefnau fel y bydd hynny'n codi.

It was really wonderful to welcome all the pupils back to school during the week. Everyone was really glad to see each other once again. It was a lovely week for us all. We must praise the children for being so sensible and careful, and making every effort to keep themselves and others safe. You are kindly asked to remind them of this and to remind them also of the importance of washing their hands regularly throughout the day. Many thanks to you for your co-operation and understanding as we have to adjust and adapt our procedures.

CYRRAEDD A GADAEI YR YSGOL – ARRIVING AND LEAVING THE SCHOOL.

Rydym yn parhau i edrych ar y sefyllfa parthed dechrau a diwedd y dydd fel ag y mae wedi i bawb ddychwelyd yn llawn amser. Yr unig newidiadau o ddydd Llun ymlaen fydd:

We are continually looking at the situation regarding the start and end times now that everyone has returned full time. The only changes from Monday will be:

- Bydd plant y Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn dod allan am **2.55 p.m. o ddydd Llun, Medi 14eg. ymlaen.** – Reception/Years 1 & 2 pupils will leave at **2.55 p.m.** from **Monday, September 14th onwards.**
- Bydd disgyblion dosbarth E Huws/D Aykroyd yn defnyddio'r un fynedfa â dosbarth G. Jones a dod i fyny o'r giât werdd lle bo hynny'n bosib.- *The pupils in E Huws/D Aykroyd's class will use the same entrance as Mr G. Jones' class and come up from the green gate wherever possible.*

- Yn y bore, disgyblion dosbarthiadau EH/DA a GJ i aros wrth y ffens goch (llun i'ch cyrraedd cyn diwedd y penwythnos) a dosbarthiadau Blwyddyn 5 a 6 i sefyll wrth y ffens ble roedd y caban. *EH/DA & GJ's classes to line up in the morning by the red fence (photo to be sent before the end of the week end) and Years 5 and 6 pupils to line up by the fence which has replaced the mobile classroom.*

Fe'ch hatgoffir i sicrhau na fydd unrhyw un yn sefyll o gwmpas nac yn aros i sgwrsio unwaith y bydd eich plentyn wedi mynd i mewn neu ddod allan o'r ysgol os gwelwch yn dda.

You are reminded to ensure that no one stands around once your child/ren have gone into or come out of the school please.

GWISG WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S CLOTHING.

Cadarnheir y trefniadau ar gyfer gwisg ysgol o'r wythnos nesaf ymlaen, gan ddechrau **dydd Llun (14.09.20)**: *The arrangements for the clothing from next week onwards, starting on Monday (14.09.20) are as follows:*

Dydd Llun/Monday – Gwisg ysgol i bawb ar wahan i **Flwyddyn 1 a 2** (i ddod mewn dillad Addysg Gorfforol addas i weithgareddau allanol) - *School uniform for everyone apart from Years 1 & 2 (to come in Physical Education clothing suitable for outdoor activities).*

Dydd Mawrth/Tuesday – Gwisg ysgol i bawb ar wahan i **Flwyddyn 3 a 4** (i ddod mewn dillad Addysg Gorfforol addas i weithgareddau allanol). - *School uniform for everyone apart from Years 3 & 4 (to come in Physical Education clothing suitable for outdoor activities).*

Dydd Mercher/Wednesday - Diwrnod di wisg ysgol i **bawb** – dillad ymarferol ar y diwrnod hwn hefyd. – *Non school uniform day for everyone - practical clothing on this day also.*

Dydd Iau/Thursday – Gwisg ysgol i bawb ar wahan i'r **Derbyn** (i ddod mewn dillad Addysg Gorfforol addas i weithgareddau allanol) - *School uniform for everyone apart from Reception (in Physical Education clothing suitable for outdoor activities).*

Dydd Gwener/Friday – Gwisg ysgol i bawb ar wahan i **Flwyddyn 5 & 6** (i ddod mewn dillad Addysg Gorfforol addas i weithgareddau allanol) - *School uniform for everyone apart from Years 5 & 6 (in Physical Education clothing suitable for outdoor activities).*

DIWRNODAU HYFFORDDIANT MEWN SWYDD 2020-2021 IN SERVICE TRAINING DAYS.

Er gwybodaeth i chi, dyma restr o'r diwrnodau HMS yn ystod y flwyddyn pan na fydd y disgyblion yn dod i'r ysgol:

For your information, here is a list of the INSET days for the year, when the children will not be coming to school:

01&02.09.20

04.01.21

12.04.21

19&20.07.21

Mwynhewch y penwythnos bawb!

Enjoy the week end everyone!